

RHIF YR YMCHWIL GYMDEITHASOL: 25/2020
DYDDIAD CYHOEDDI: 26/03/2020

Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar yr ardal lle maent yn byw?

Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 26

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu rhai ffactorau sy'n gysylltiedig ag oedolion yng Nghymru yn teimlo'n fodlon iawn ar eu hardal leol fel rhywle i fyw. Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn cynnwys mesur o i ba raddau y mae unigolyn yn teimlo'n fodlon ar ei ardal leol. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau'r Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd yn **2018-19**. Nod yr adroddiad hwn yn cyflwyno diweddariad o drosolwg o'r prif ffactorau sy'n gysylltiedig â theimlo'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw.

Prif ganfyddiadau

Gan gadw ffactorau eraill yn gyson¹, canfuwyd bod y ffactorau isod yn gysylltiedig â theimlo'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw.

- **Pobl 35-54 oed**, o'u cymharu â rhai hŷn neu iau.
- **Dim plant** yn byw ar yr aelwyd.
- **Iechyd cyffredinol da neu eithaf da**, o'i gymharu ag iechyd gwael.
- Byw mewn **ardal wledig** (pentrefi bach, trefi ac ar y cyrion rhwng ardaloedd gwledig a threfol) yn bennaf, o'i gymharu â byw mewn ardaloedd trefol, mwy adeiledig.
- Byw yn **Sir Fynwy, ym Mro Morgannwg neu yng Ngwynedd**; o'i gymharu â phobl sy'n byw yn Sir Benfro, ym Mlaenau Gwent, neu yn Rhondda Cynon Taf.
- Gallu cael **gafael ar wybodaeth am yr awdurdod lleol** mewn ffordd sy'n gyfleus iddynt.
- Bodlon ag argaeledd **gwasanaethau a chyfleusterau lleol**.
- **Ymdeimlad o berthyn** i'r ardal leol.
- Teimlo bod pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd â **pharch ac ystyriaeth**.
- **Teimlo'n ddiogel** wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu.
- Ddim yn siarad Cymraeg ar y cyfan, ond **yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg**.

Roedd 18 o ffactorau wedi'u cynnwys yn ein dadansoddiad, y canfuwyd **nad** oeddent yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw, gan gynnwys: statws priodasol; crefydd; a deiliadaeth.

¹ Rydym wedi rheoli ystod o ffactorau yn y gwaith dadansoddi hwn. Felly, hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (ee iechyd cyffredinol ac oedran), gellir archwilio'r cysylltiad rhwng pob ffactor a'r bobl sy'n teimlo'n fodlon ar eu hardal leol yn annibynnol.

Fel sy'n wir am bob dadansoddiad fel hyn, nid ydym yn gallu priodoli achos ac effaith na chaniatáu ar gyfer ffactorau nad ydynt wedi cael eu mesur yn yr arolwg.

Cynnwys

Tudalen:


1. Y Cefndir	3
2. Y Mesur a ddefnyddiwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru	3
3. Dull dadansoddi	4
4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol	6
4.1 Dadansoddi	8
4.1.1 Ffactorau demograffig	8
<i>Grŵp oedran</i>	8
4.1.2 Ffactorau iechyd	8
<i>Iechyd cyffredinol</i>	8
4.1.3 Nodweddion yr aelwyd	9
<i>Presenoldeb plant ar yr aelwyd</i>	9
4.1.4 Nodweddion yr ardal leol	9
<i>Dosbarthiad tir</i>	9
<i>Awdurdod lleol</i>	10
4.1.5 Cydlyniant cymunedol	10
<i>Ymdeimlad o berthyn i ardal leol</i>	10
<i>Pobl leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth</i>	11
4.1.6 Diogelwch cymunedol	11
<i>Teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu</i>	11
4.1.7 Democratiaeth leol	11
<i>Teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol</i>	11
4.1.8 Gwasanaethau awdurdod lleol	12
<i>Bodlonrwydd ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol</i>	12
<i>Gallu cael gafael ar wybodaeth am awdurdod lleol yn y dull o'u dewis</i>	12
4.1.9 Y Gymraeg	12
<i>Siarad Cymraeg (yn gyffredinol)</i>	12
4.2 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol	13
5. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil	14

1. Y Cefndir

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am dargedau a materion hirdymor, gweithio'n well gyda chymunedau a rhanddeiliaid, a dilyn dull mwy cydlynol a chydgyssylltiedig o wneud penderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni, mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith o nodau llesiant² (**Ffigur 1**).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu [dangosyddion cenedlaethol](#) sy'n mesur sut mae'r nodau llesiant yn cael eu cyflawni. Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn mesur cynnydd yn erbyn 15 o'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol. Mae'r arolwg yn cynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb â hapsampl o 12,000 o bobl o bob cwr o Gymru bob blwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar [Ddangosydd Cenedlaethol 26: 'Canran y bobl sy'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.'](#)



Ffigur 1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: saith nod llesiant³.

2. Y cwestiwn yn yr Arolwg Cenedlaethol

Casglwyd gwybodaeth a oedd yn berthnasol i Ddangosydd Cenedlaethol 26 drwy ofyn i'r rhai a oedd yn ateb yr Arolwg Cenedlaethol i ba raddau roeddent yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw. Defnyddiwyd graddfa pum pwynt i ateb pob un o'r datganiadau hyn, a oedd yn amrywio o '1 = bodlon iawn' i '5 = anfodlon iawn'. Ar gyfer y gwaith dadansoddi yn yr adroddiad hwn, roedd yr ymatebwyr a oedd wedi ateb 'bodlon iawn' neu 'eithaf bodlon' wedi cael eu cyfuno yn un uned fesur ar gyfer pobl a oedd yn 'fodlon' ar eu hardal leol fel lle i fyw. Yn yr un modd, roedd pobl a oedd wedi ateb 'anfodlon iawn' neu 'eithaf anfodlon' wedi cael eu cyfuno yn 'anfodlon', ac nid oedd y rhai a oedd wedi rhoi ateb niwtral wedi cael eu cynnwys yn y gwaith dadansoddi.

Roedd cyfanswm o **86% o oedolion** yn fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.


² Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion, sydd ar gael [ar-lein](#).

3. Dull dadansoddi

Er mwyn deall yn iawn sut mae ffactorau penodol yn cyfrannu at bobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol, roeddem wedi defnyddio **techneg ystadegol³ i archwilio'r cysylltiad⁴ rhwng pob ffactor a bodlonrwydd ar yr ardal leol, gan gadw pob ffactor arall yn gyson**. Mae cadw pob ffactor arall yn gyson (cyfeirir at hyn fel rheoli ffactorau eraill hefyd) yn bwysig oherwydd mae'n caniatáu i ni edrych ar bob ffactor yn annibynnol (hynny yw, sicrhau nad oes ffactorau allanol yn dylanwadu ar yr effaith rydym yn ei mesur). Er mwyn edrych ar effaith un ffactor (ee oedran) ar fodlonrwydd pobl ar eu hardal leol, byddai arnom angen rheoli effaith pob ffactor arall. Mae modd i ni gael syniad llawer gwell o sut mae un ffactor unigol yn gysylltiedig â bodlonrwydd pobl ar eu hardal leol, heb ddylanwad ffactorau eraill.

Cymhlethdod rhai perthnasoedd rhwng ffactorau

Er mwyn deall y canlyniadau hyn, ni allwn bob amser fod yn sicr ynghylch pa ffactorau sy'n achosi i bobl deimlo'n fodlon ar eu hardal leol a pha ffactorau y mae pobl sy'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw yn eu *hachosi*. Mae'r berthynas hon yn amlwg yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol ar gyfer rhai ffactorau. Gallai mynd yn hŷn achosi i bobl deimlo'n fodlon ar eu hardal leol; fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw teimlo'n fwy bodlon ar ardal yn arwain at gynnydd mewn oedran. Fodd bynnag, nid yw cyfeiriad y berthynas mor amlwg ar gyfer ffactorau eraill. Er enghraifft, efallai y byddai ymdeimlad o berthyn i gymuned yn eu hardal leol yn achosi i bobl deimlo'n fodlon ar yr ardal fel lle i fyw. Ond, ar y llaw arall, efallai bod teimlo'n fodlon ar yr ardal leol yn helpu i bobl deimlo eu bod yn perthyn i'r gymuned leol: gallai'r berthynas weithio ddwy ffordd⁵.



Figur 2 Pwysigrwydd cadw pob ffactor arall yn gyson wrth ddadansoddi ystadegau.

³ Atchweliad logistaidd yw'r enw ar hyn. Mae rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ar gael yn yr [adroddiad methodoleg atchweliad a'r adroddiad technegol](#).

⁴ Mae'r dadansoddiad hwn yn gallu dweud wrthym am *debygoliaeth* perthnasoedd rhwng ffactorau, ond ni all ddweud wrthym am berthnasoedd anffurfiol (ee byddai'n anghywir dweud bod ymdeimlad o berthyn i ardal yn *achosi* i bobl deimlo'n fodlon ar eu hardal leol).

⁵ Gall y berthynas hon fod yn hyd yn oed mwy cymhleth, oherwydd gallai fod ffactorau eraill nad ydym wedi'u hystyried eto (ac nad ydynt ar gael gan yr Arolwg Cenedlaethol) a allai fod yn achosi i bobl deimlo'n fodlon ar eu hardal leol a chael ymdeimlad o berthyn.


Dehongli'r canlyniadau

Mae'r holl ffactorau a gyflwynir yn y siartiau yn yr adroddiad hwn yn rhagfynegyddion ystadegol arwyddocaol o bobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw, fel sydd wedi'u profi gan y model atchweliad rydym wedi'i ddewis. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio 'ymylon rhagfynegi' - sy'n cael eu cyflwyno fel canrannau (%) - i ddangos y tebygolrwydd o berthynas rhwng pob ffactor (gan gadw pob ffactor arall yn gyson) â'r newidyn dibynnol (pobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw). Mae'r canlyniadau yn dangos pa mor debygol yw un grŵp 'cyffredin' o bobl â nodwedd a rennir (ee menywod) o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw, o'i gymharu â grŵp 'cyffredin' arall o bobl â nodwedd wahanol a rennir (ee dynion) mewn un ffactor penodol (ee rhyw). Mae bariau ansicrwydd ar y siartiau yn dangos y cyfwng hyder o 95% ar gyfer yr ymylon rhagfynegi i bob grŵp. Mae bariau ansicrwydd sy'n gorgyffwrdd yn golygu nad yw hi'n gwbl glir pa grŵp yn y ffactor yw'r mwyaf rhagfynegol, er bod y ffactor yn rhagfynegydd arwyddocaol o bobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.


4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar ardal leol

Roedd cyfanswm o **86%** o bobl yn **fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw**. Mae **Ffigur 3.1** yn dangos yr holl ffactorau unigol (gan **gadw'r ffactorau eraill yn gyson**) y canfuwyd a oedd yn gysylltiedig â'r debygolrwydd fod pobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol. Ym mhob ffactor, mae'r grŵp sydd â'r tebygolrwydd mwyaf o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw wedi'i amlygu mewn glas golau. Ceir dadansoddiad mwy manwl o bob un o'r ffactorau hyn yn yr adrannau canlynol. Rydym hefyd wedi dadansoddi ardaloedd awdurdod lleol a bodlonrwydd ar le. Ewch i [Adran 4.1.4](#) i gael rhagor o wybodaeth.

Ffigur 3.1 Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.



Ffigur 3.1 (parhad) Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw.



4.1 Dadansoddi


Gan gadw pob ffactor arall yn gyson, canfuwyd bod y ffactorau canlynol yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw. Mae ffactorau unigol sy'n rhannu nodweddion tebyg wedi cael eu grwpio'n **themâu** (ee ffactorau demograffig). Rhestrir y ffactorau y canfuwyd **nad** oeddent yn gysylltiedig â bodlonrwydd ar yr ardal leol yn [Adran 4.2](#).

4.1.1 Ffactorau demograffig

Grŵp oedran

Fel y gwelir yn **Ffigur 4.1**, pobl **35-44 oed**, a phobl **45-54 oed** oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw. Pobl 25-34 oed oedd y lleiaf tebygol.

Ffigur 4.1 Y berthynas rhwng bodlonrwydd ar yr ardal leol ac oedran.




4.1.2 Ffactorau iechyd

Iechyd cyffredinol

Er bod **iechyd cyffredinol** yn gysylltiedig â theimlo'n fodlon ar yr ardal leol, nid oedd gwahaniaeth arwyddocaol rhwng yr ymatebion iechyd. Gweler **Ffigur 4.2**.

Ffigur 4.2 Y berthynas rhwng bodlonrwydd ar yr ardal leol ac iechyd cyffredinol.




4.1.3 Nodweddion yr aelwyd

Presenoldeb plant ar yr aelwyd

Roedd presenoldeb **plant yn byw ar yr aelwyd** yn gysylltiedig â bodlonrwydd ar ardal, ond nid oedd gwahaniaeth amlwg rhwng aelwydydd â phlant ac aelwydydd heb blant. Gweler **Ffigur 4.3**.

Ffigur 4.3 Y berthynas rhwng bodlonrwydd ar yr ardal leol a phresenoldeb plant ar yr aelwyd.




4.1.4 Nodweddion yr ardal leol

Dosbarthiad tir

Pobl a oedd yn byw mewn **trefi ac ardaloedd ar y cyrion** a phobl a oedd yn byw mewn pentrefi bychan ac mewn anheddau ynysig oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol. Pobl a oedd yn byw mewn pentrefi oedd y lleiaf tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw, fel y gwelir yn **Ffigur 4.4**.


Ffigur 4.4 Y berthynas rhwng bodlonrwydd ar yr ardal leol a dosbarthiad tir.



Awdurdod lleol

Pobl a oedd yn byw yn Sir Fynwy oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw, a'r rheini yn Sir Benfro oedd y lleiaf tebygol⁶ (**Ffigur 4.5**).

Ffigur 4.5 Y berthynas rhwng bodlonrwydd ar yr ardal leol ac awdurdod lleol.




4.1.5 Cydlyniant cymunedol

Ymdeimlad o berthyn

Ar y cyfan, roedd pobl a oedd yn cytuno eu bod yn cael ymdeimlad o berthyn â'r gymuned yn eu hardal leol yn fwy tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol, na'r rheini nad oeddent yn cael ymdeimlad o berthyn (**Ffigur 4.6**).

Ffigur 4.6 Y berthynas rhwng bodlonrwydd ar yr ardal leol ac ymdeimlad o berthyn.




⁶ Roedd ardal Ceredigion wedi cael ei chynnwys yn y dadansoddiad hwn hefyd, ond nid oedd yn addas ar gyfer y dull atchweliad a ddefnyddiwyd, oherwydd roedd pawb yn yr ardal hon wedi rhoi atebion tebygol.

Pobl leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth

Fel y gwelir yn **Ffigur 4.7**, pobl a oedd yn 'cytuno'n gryf' fod pobl yn eu cymuned leol yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n fodlon ar yr ardal leol fel lle i fyw, a'r rheini a oedd yn 'anghytuno'n gryf' oedd y lleiaf tebygol.

Ffigur 4.7 Y berthynas rhwng bodlonrwydd ar yr ardal leol a theimlo bod pobl yn trin ei gilydd â pharch ac ystyriaeth.




4.1.6 Diogelwch cymunedol

Teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu

Ar y cyfan, pobl a oedd yn teimlo'n 'ddiogel' wrth gerdded o amgylch eu hardal leol gyda'r nos oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol, na'r rhai nad oeddent yn teimlo'n ddiogel. Gweler **Ffigur 4.8**.

Ffigur 4.8 Y berthynas rhwng bodlonrwydd ar yr ardal leol a theimlo'n ddiogel wrth gerdded o amgylch yr ardal leol.




4.1.7 Democratiaeth leol

Teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol

Pobl a oedd yn cytuno eu bod yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw (**Ffigur 4.9**).

Ffigur 4.9 Y berthynas rhwng bodlonrwydd ar yr ardal leol a theimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar yr ardal leol.




4.1.8 Gwasanaethau awdurdod lleol

Bodlonrwydd ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol

Ar y cyfan, roedd pobl a oedd yn teimlo'n fodlon ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol yn eu hardal yn fwy tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw na'r bobl nad oeddent yn teimlo'n fodlon ar argaeledd gwasanaethau a chyfleusterau lleol. (Ffigur 4.10).


Ffigur 4.10 Y berthynas rhwng bodlonrwydd ar yr ardal leol a bodlonrwydd ar argaeledd gwasanaethau lleol



Gallu cael gafael ar wybodaeth am awdurdod lleol yn y dull o'u dewis

Ar y cyfan, roedd pobl a oedd yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar wybodaeth am eu hawdurdod lleol mewn ffordd a oedd yn gyfleus iddynt yn fwy tebygol o deimlo'n fodlon ar fyw yn eu hardal leol (Gweler Ffigur 4.11).

Ffigur 4.11 Y berthynas rhwng bodlonrwydd ar yr ardal leol a chael gafael ar wybodaeth am awdurdod lleol.




4.1.9 Y Gymraeg

Siarad Cymraeg (yn gyffredinol)

Pobl a oedd yn dweud nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg, ond eu bod yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg, oedd y mwyaf tebygol o deimlo'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw. Gweler Ffigur 4.12.

Ffigur 4.12 Y berthynas rhwng bodlonrwydd ar yr ardal leol ac a ydynt yn siarad Cymraeg.



4.2 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol

Yn y dadansoddiad hwn, roedd ffactorau eraill wedi'u cynnwys yn ein model atchweliad, ond **ni** wnaethom ganfod cysylltiad rhwng y ffactorau canlynol a phobl yn teimlo'n fodlon ar eu hardal leol:

- Statws priodasol.
- Cyrhaeddiad addysgol.
- Crefydd.
- Deiliadaeth.
- Statws economaidd.
- Amddifadedd materol.
- Llesiant meddyliol.
- A oes ganddynt gyflwr hirdymor cyfyngol.
- Cytuno bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda yn yr ardal leol.
- Teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu.
- Teimlo'n ddiogel wrth deithio mewn car yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu.
- Teimlo'n ddiogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu.
- Cytuno bod y cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'r gymuned.
- A ydynt wedi cysylltu â'r cynghorydd lleol yn y 12 mis diwethaf.
- Dealltwriaeth dda o'r hyn y mae'r cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran y gymuned leol.
- Gwybod sut mae cael gwybod pa wasanaethau mae'r awdurdod lleol yn eu cynnig.
- Siarad Cymraeg o ddydd i ddydd (a gwybod mwy na dim ond ychydig o eiriau Cymraeg).
- Cymryd rhan mewn tri neu ragor o weithgareddau chwaraeon bob wythnos.

5. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil

Yn gryno, rydym wedi dadansoddi ffactorau unigol (a themâu cyffredinol) sy'n gysylltiedig â **Dangosydd Cenedlaethol 26: 'Canran y bobl sy'n fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw'**.

Roedd naw thema ganolog⁷ wedi dod i'r amlwg yn ein dadansoddiad:

1. Ffactorau demograffig.
2. Ffactorau iechyd.
3. Nodweddion yr aelwyd.
4. Nodweddion yr ardal leol.
5. Ymdeimlad o gymuned.
6. Diogelwch cymunedol.
7. Democratiaeth leol.
8. Gwasanaethau awdurdod lleol.
9. Y Gymraeg.

Gallai'r berthynas rhwng ffactorau penodol a chanran y bobl a oedd yn fodlon ar eu hardal leol fel lle i fyw fod yn fwy cymhleth na'r hyn a awgrymir yn yr adroddiad cenedlaethol hwn, a gallai'r canlyniadau **amrywio** rhwng ac o fewn gwahanol ardaloedd daearyddol. Felly, gallai rhagor o ymchwil gynnwys mwy o ymchwiliadau ar raddfa fach sy'n cynnwys dulliau ymchwil ansoddol⁸ neu ddulliau cymysg⁹.

⁷ Gyda'i gilydd, roeddem wedi edrych ar ffactorau a oedd yn gysylltiedig â **7 Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer Llesiant** fel rhan o brosiect yn defnyddio data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19. Canfuwyd bod rhai ffactorau yn gysylltiedig â mwy nag un Dangosydd Cenedlaethol, felly rydym wedi darparu dogfen ar wahân sy'n tynnu sylw at y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y ffactorau unigol, a'r themâu cyffredinol, y canfuwyd sy'n gysylltiedig â'r holl Ddangosyddion Cenedlaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein: Hafferty, C. (2020). *Themâu allweddol sy'n gysylltiedig â detholiad o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019>.

⁸ Defnyddir **ymchwil ansoddol** yn aml i ddeall rhesymau, safbwyntiau a chymhelliant sylfaenol pobl; er mwyn gweld y tueddiadau o ran meddyliau a safbwyntiau pobl er mwyn i ni ddeall mater penodol yn well. Mae dulliau casglu data ansoddol yn aml yn ddulliau ar raddfa fach, sy'n casglu data heb fod yn rhifol drwy ddefnyddio technegau fel cyfweiliadau a grwpiau ffocws. Ar y llaw arall, mae ymchwil *feintiol* yn ceisio deall problem drwy gasglu data rhifol y gellir eu defnyddio wrth ddadansoddi ystadegau, yn aml er mwyn cynhyrchu canlyniadau cyffredinol i sampl fawr o boblogaeth (ee agweddau, ymddygiad a safbwyntiau). Er enghraifft, dyma sut mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth yn bennaf.

⁹ Mae **'dulliau cymysg'** yn ddull ymchwil sy'n cynnwys casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol yn yr un astudiaeth. Wrth i lunwyr polisïau, ymarferwyr a phobl eraill mewn meysydd cymhwysol anelu at baratoi ymchwil seiliedig ar wybodaeth ar sail sawl math o dystiolaeth, (er enghraifft llesiant cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol, sy'n cynnwys sawl agwedd), gall ymchwil dulliau cymysg fod yn ffordd dda o archwilio'r sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth hyn.

Awdur yr Adroddiad: Caitlin Hafferty



Safbwyntiau'r ymchwilwyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Siobhan Evans
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: Siobhan.Evans@gov.wales

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.

This document is also available in English.

OGI © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-359-3